Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn yr awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid i lywio'r arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo'n berthnasol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leoli yn ne Cymru ac mae ganddo boblogaeth o ryw 147,539 o bobl, gan gynnwys tua 12,870 o bobl ifanc 10-17 oed. Mae arolygwyr yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso gwasanaethau ieuenctid. Yn ôl y darparwr, daw 1.5% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o grŵp ethnig leiafrifol. Mae ganddynt 8% o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sydd islaw cyfartaledd Cymru, ac mae 24.6% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol.

Mae gan y gwasanaeth nifer o dimau sy'n cynnig amrywiaeth o brosiectau targedig i bobl ifanc:

- Inspire2Achieve
- Inspire2Work
- Iechyd emosiynol ieuenctid
- Digartrefedd ieuenctid
- Iechyd a lles
- Hawliau a chyfranogiad pobl ifanc
- Allgymorth digidol, ac
- Allgymorth ieuenctid

Yn ogystal â hyn, mae'r gwasanaeth cymorth ieuenctid yn cynnig darpariaeth mynediad agored mewn canolfannau ac ar y stryd ar draws yr awdurdod lleol.

Adeg yr arolygiad, mae gan y gwasanaeth ieuenctid 52.5 o staff cyfwerth ag amser llawn. Yn 2025-2026, mae gan y gwasanaeth ieuenctid gyllideb o ryw £2.18 miliwn, y mae dros 83% ohoni'n dod o gyllid grant.

## Trosolwg

Ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol, lles a rhagolygon llawer o bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc sy'n agored i niwed neu sydd wedi ymddieithrio rhag addysg ffurfiol. Trwy ddysgu anffurfiol a dysgu nad yw'n ffurfiol, o ansawdd uchel, mae pobl ifanc yn datblygu gwydnwch, yn gwella ymddygiad a phresenoldeb, yn ennill achrediad ac yn caffael medrau bywyd a chyflogadwyedd ymarferol. Mae grwpiau targedig, fel pobl ifanc LHDTC+, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), yn elwa o ymyriadau teilwredig sy'n cryfhau eu hyder, eu hannibyniaeth a'u hunanddealltwriaeth.

Mae cyfranogiad a llais ieuenctid yn nodweddion cryf o'r gwasanaeth. Mae pobl ifanc yn cyfrannu'n ystyrlon at wneud penderfyniadau trwy'r Cyngor Ieuenctid, prosiectau addysg cymheiriaid a'r fenter Arolygwyr Ifanc. Maent yn datblygu medrau arweinyddiaeth, dealltwriaeth ddemocrataidd a medrau cyfathrebu, ac yn dylanwadu ar bolisi lleol a gwella gwasanaethau. Mae arfer gynhwysol wedi'i gwreiddio'n dda. Mae darpariaeth fel y Clwb Dawel a dulliau allgymorth hyblyg yn sicrhau bod pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn ymgysylltu'n ddiogel ac yn hyderus ochr yn ochr â'u cymheiriaid. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i bobl ifanc gynyddu eu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru a datblygu a defnyddio'u medrau Cymraeg.

Mae ansawdd gwaith ieuenctid yn gyson gryf. Mae staff yn meithrin perthnasoedd parchus, ymddiriedus ac maent yn defnyddio dull ystyriol o drawma sydd wedi'i wreiddio'n dda. Mae cynllunio pwrpasol, cydweithredu amlasiantaethol effeithiol, ac allgymorth wedi'i arwain gan wybodaeth, yn sicrhau cymorth amserol a chymesur. Mae addysg ataliol, gan gynnwys gwaith ar berthnasoedd iach, gwrth-hiliaeth a diogelwch cymunedol, yn ymateb yn effeithiol i angen lleol. Mae deilliannau mesuradwy yn cynnwys gwell ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, cwblhau dyfarniadau achrededig, a gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â rhaglenni arallgyfeirio targedig. Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn cyflwyno anghenion fwyfwy cymhleth, sy'n rhoi pwysau ar staff.

Mae arweinwyr yn ymrwymo i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae trefniadau llywodraethu'n cynnig her a goruchwyliaeth briodol, ac mae gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau statudol a thrydydd sector yn hynod effeithiol. Defnyddir gwybodaeth am berfformiad yn briodol i fonitro effaith o ran deilliannau cadarnhaol parhaus NEET o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ormodol ar ddisgrifio gweithgarwch ac nid ydynt yn dadansoddi effaith dymor hwy yn gyson.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith ieuenctid eang, cynhwysol a mwyfwy effeithiol. Mae'n cyfrannu'n gryf at iechyd a lles pobl ifanc, eu dysgu a'u dilyniant, ac at gydlyniant cymunedol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr:

- Man diogel, croesawgar lle'r ydych yn cael eich trin gyda pharch
- Gweithwyr ieuenctid sy'n gwrando arnoch, yn eich cymryd o ddifri ac yn cadw pethau'n gyfrinachol (oni bai eu bod nhw'n poeni am eich diogelwch)
- Cymorth â phethau sy'n bwysig i chi – gan gynnwys ysgol, coleg, gwaith, hyfforddiant neu geisiadau am swyddi
- Help i fagu eich hyder, eich annibyniaeth a'ch medrau bywyd (fel cyllidebu, coginio, hyfforddiant teithio neu reoli emosiynau)
- Cyfleoedd i ennill achrediad a chymwysterau cydnabyddedig
- Gweithgareddau y gallwch eu mwynhau – gan gynnwys chwaraeon, celf, cerddoriaeth, cyfryngau digidol, coginio a phrosiectau grŵp
- Cymorth â'ch iechyd emosiynol a'ch lles
- Cyngor ac arweiniad ar berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth o sylweddau
- Help i gael at wasanaethau eraill os oes eu hangen arnoch (er enghraifft cymorth â thai, iechyd meddwl neu gyflogaeth)
- Cyfleoedd i ddweud eich dweud, dylanwadu ar benderfyniadau a chymryd rhan mewn prosiectau fel y Cyngor Ieuenctid neu Arolygwyr Ifanc
- Amgylchedd cynhwysol lle mae croeso i bawb a pharch tuag at wahaniaethau.

Beth na fyddwch efallai'n ei gael yng Ngwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eich medrau Cymraeg neu ddysgu am ddiwylliant Cymru yn rheolaidd.

## Argymhellion

Mae gennym ni ddau argymhelliad i helpu'r gwasanaeth barhau i wella, sef:

A1 Cynyddu gwelededd y Gymraeg a diwylliant Cymru a gwreiddio cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u medrau Cymraeg

A2 Miniogi prosesau hunanwerthuso'r gwasanaeth i ganolbwyntio'n gliriach ar effaith a meysydd i'w datblygu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Mae llawer o bobl ifanc ar draws Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu mewn amryw ffyrdd trwy ryngweithio â'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid. Yn aml, y bobl ifanc hyn yw'r rhai mwyaf bregus yn eu cymunedau ac nid ydynt efallai'n llwyddo mewn lleoliadau addysg confensiynol. Trwy addysg anffurfiol, maent yn darganfod diddordebau a medrau newydd, yn datblygu gwydnwch ac yn gwella'u hiechyd a lles cyffredinol.

### Addysgol

Mae pobl ifanc yn gwella'u synnwyr o hunan-werth, ymddygiad a phresenoldeb ysgol trwy gymorth personoledig un-i-un. Mae eraill yn paratoi ar gyfer gwaith, dysgu byw'n annibynnol neu ddatblygu perthynas well â'u teuluoedd ac oedolion eraill. Maent yn dysgu medrau hanfodol fel sut i reoli dicter a rheoli sefyllfaoedd anodd.

Mae pobl ifanc yn dysgu medrau defnyddiol fel coginio, cyllidebu, trin gwallt a gwaith barbwr. Hyd yma yn y flwyddyn academaidd hon, mae 154 o bobl ifanc wedi ennill amrywiaeth o unedau achredu ar gyfer eu gwaith, gan gwmpasu cyrsiau ymarferol a datblygu personol o lefel mynediad 3 hyd at lefel 1.

Mae amrywiaeth eang o bobl ifanc yn dysgu am iechyd rhywiol a pherthnasoedd iach. Mae menywod ifanc a dynion ifanc yn cynyddu eu dealltwriaeth o sut i ryngweithio â'i gilydd ac i adnabod arwyddion gorfodaeth a chamdriniaeth. O ganlyniad i brosiect urddas y mislif, mae menywod ifanc yn dysgu peidio â theimlo cywilydd am eu corff ac mae dynion ifanc a bechgyn yn ennill dealltwriaeth o'r nwyddau mislif sydd ar gael am ddim ym mhob lleoliad cymunedol, mewn llawer o ysgolion a thrwy danysgrifiad.

Mae pobl ifanc LHDTC+ sy'n mynd i'r grŵp Pobl Ifanc Pride (YPO) yn gwella'u hunan-barch, yn deall eu hunain o fewn y gymuned ehangach ac yn dod yn falch o bwy ydyn nhw. Maent yn dysgu am fudiad Pride, a thrwy brosiect murlun sy'n canolbwyntio ar hanes, maent yn dysgu am streic y glowyr. Maent yn archwilio sut y gwnaeth grwpiau hoyw a lesbiaidd sefyll mewn undod â'r glowyr a'u teuluoedd ac ennyn dealltwriaeth, parch ac integreiddio i gymunedau glo traddodiadol Cymru.

Mae'r grŵp golygyddion ifanc yn datblygu'u medrau digidol er eu budd eu hunain a budd pobl ifanc eraill. Maent yn helpu i lunio cynnwys gwefan a chyfryngau cymdeithasol y Gwasanaethu Cymorth Ieuenctid. Maent yn rhannu eu syniadau ac yn cynyddu eu hyder a'u siawns o gael gwaith yn y diwydiannau creadigol. Trwy brosiect ffotograffiaeth, 'Love where you live', maent yn dangos eu medrau artistig a thechnegol, gan hefyd ddathlu eu hamgylchfyd a'u cymunedau. Maent yn ehangu eu gorwelion, yn cynyddu eu gwybodaeth

ac yn datblygu eu doniau digidol trwy ymweld â phrosiect tebyg yng Nghaerdydd. Mae eu cyfraniadau wir yn cael effaith ar bresenoldeb ar-lein y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac, o ganlyniad, ar ystod ehangach o bobl ifanc ar draws y sir.

Mae pobl ifanc o'r cyngor ieuenctid yn datblygu'u dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd ac o lywodraeth leol a chenedlaethol. Maent yn dysgu medrau meithrin tîm a hawliau plant a phobl ifanc. Maent wedi datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol defnyddiol, gan gynnwys gêm fwrdd soffistigedig am ddemocratiaeth, Votopia, gan ei defnyddio mewn ymweliadau ag ysgolion a darpariaeth ieuenctid ar draws y sir i helpu addysgu pobl ifanc eraill am ddemocratiaeth a llywodraethu dinesig.

Trwy'r prosiect addysg cymheiriad i gymheiriad, 'Dy Lais; Dy Bleidlais', maent yn dysgu sut bydd polisïau pleidiau gwleidyddol yn effeithio ar bobl ifanc a sut i annog eraill i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed trwy bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae carfan newydd o bobl ifanc yn datblygu'u medrau yn y meysydd hyn ac maent yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant prosiectau blaenorol.

## Mynegiannol

Mae llawer o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mynegiannol mewn canolfannau mynediad agored, fel prosiectau celf a ffotograffiaeth. Ar nosweithiau sioe ffasiwn, maent yn hyrwyddo dillad a wnaed o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Mae pobl ifanc eraill yn cyfeirio'u hegni corfforol trwy weithgareddau awyr agored fel syrffio, padlfyrddio, cyrsiau antur neu ymuno â sesiynau rygbi tag yn ystod sesiynau Tackle after Dark. Mewn sesiynau rygbi tag, mae pobl ifanc yn herio'u hamgyffredion eu hunain o oedolion mewn awdurdod trwy chwarae gyda swyddogion cymunedol yr heddlu.

Mae pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn mynegi eu hunain trwy therapi blociau adeiladu, gan feithrin medrau gwaith tîm a chymdeithasol, hefyd. Mae eraill yn mwynhau therapi canu a chrefftau celf fel ffordd o ryddhau tensiynau a mynegi emosiynau. Mae'r bobl ifanc hyn yn mynegi eu teimladau a'u sefyllfaoedd personol mewn sgyrsiau gyda'r gweithwyr ieuenctid.

Yn anad dim, mae pobl ifanc bregus iawn, sydd ar yr ymylon, yn magu hyder ac yn dechrau deall pwy ydyn nhw. Trwy ryngweithio â'u gweithwyr ieuenctid, maent yn dechrau mynd i'r afael â phroses rheoli eu hemosiynau, eu hofnau a sefyllfaoedd anodd y gallant ddod ar eu traws.

## Cyfranogol

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r cyngor ieuenctid yn cyfrannu at waith Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc eraill. Maent yn dadansoddi'r materion a godir yn ymgynghoriad Eich Llais ac yn dwyn y pryderon hyn gerbron aelodau a swyddogion y cyngor. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithredu ar nifer o'r materion hyn ac adrodd yn ôl ar eu gweithredoedd i bobl ifanc. Mae pobl ifanc yn dechrau deall anawsterau gwneud penderfyniadau ar lefel cyngor a pham mae'n rhaid i swyddogion a chynghorwyr wneud dewisiadau anodd yn aml. Mae ychydig ohonynt yn awyddus i fynd i fyd gwleidyddiaeth eu hunain.

Mae pobl ifanc yn y cyngor ieuenctid hefyd yn cychwyn amrywiaeth o weithgareddau codi arian, gan godi arian i elusennau fel digartrefedd ieuenctid. Yn ystod digwyddiad 'yn ôl i'r ysgol' llwyddiannus iawn a drefnwyd ganddynt, fe wnaethant sefydlu stondin i ailgylchu gwisgoedd ysgol.

Mae pobl ifanc sy'n mynd i ganolfan ieuenctid mynediad agored Pencoed yn cymryd rhan mewn casglu sbwriel, yn sgil enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Maent yn dangos yn gyhoeddus sut maent yn cyfrannu at y gymuned a chawsant eu gwobrwyo gan rodd ariannol gan y Maer lleol tuag at brynu offer i'r ganolfan.

Mae pobl ifanc yn y prosiect arolygwyr ifanc yn dysgu sut i arolygu gwasanaethau ieuenctid. Maent yn datblygu fframwaith a methodoleg, ac yn arddangos medrau lefel uchel iawn, gan gynnwys cyfathrebu a barnu wrth gyflawni'r gwaith. Ar y cyd â'r gweithiwr arweiniol, maent yn cynhyrchu adroddiad craff sy'n mynd i wraidd materion pwysig i'r gwasanaeth. Mae darparwyr gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yn y sir wedi gwerthfawrogi'r adroddiad hwn a gweithredu arno. Mae'r arolygwyr ifanc wedi cyflawni gwasanaeth gwerthfawr er budd pobl ifanc eraill.

## Cynhwysol

Mae pobl ifanc yn gyfeillgar a chroesawgar, ac mae awyrgylch goddefgar o fewn gofodau a gweithgareddau. Yn aml, mae pobl ifanc o wahanol grwpiau a phrosiectau yn cymysgu mewn darpariaeth ieuenctid mynediad agored. Yng nghanolfan ieuenctid Neuadd Evergreen ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae pobl ifanc o wahanol grwpiau, gan gynnwys pobl ifanc hŷn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ceisio swyddi, yn cymysgu'n hawdd â'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol a chroesawgar. Mae pobl ifanc o'r Clwb Dawel, y mae'n well ganddynt fod mewn mannau tawelach, ar y cyfan, yn gallu cymysgu â grwpiau eraill o bobl ifanc sy'n defnyddio'r ganolfan. Mae pobl ifanc yn dangos cryn ddealltwriaeth o anghenion pobl eraill a sensitifrwydd i'w hawliau a'u hanghenion.

Mae’r cyngor ieuenctid yn gynhwysol ac yn agored i bobl ifanc ag amrywiaeth o gefndiroedd a galluoedd sy’n gallu cynrychioli safbwyntiau ystod eang o bobl ifanc yn effeithiol.

Mae pobl ifanc a all fod mewn perygl o droseddu neu gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dysgu canlyniadau gweithredoedd trwy ymuno ag amrywiaeth o weithgareddau, fel prosiect ymladdwyr tân am ddiwrnod gyda Gwasanaeth Tân De Cymru. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y gweithgareddau ac mae hyn yn cael effaith weladwy ar eu hymddygiad yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Mae pobl ifanc sydd wedi ynysu’n gymdeithasol ac wedi encilio yn dod yn fwy annibynnol, ac yn fwy hyderus i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus eraill sydd ar gael iddynt.

## Grymusol

Mae’r bobl ifanc sy’n cael cymorth un-i-un yn dechrau sefydlu gwell dealltwriaeth o’u sefyllfa, eu hemosiynau a sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Maent yn dechrau sefydlu ffordd o fyw sy’n fwy sefydlog ac annibynnol.

Mae pobl ifanc yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu rhyngweithiadau â’r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid. Maent yn caffael medrau hanfodol ar gyfer bywyd ond yn cael hwyl hefyd. Mae ychydig ohonynt yn mynd ymlaen i fod yn eiriolwyr ar ran pobl ifanc eraill a nod nifer o bobl ifanc yw dod yn weithwyr ieuenctid eu hunain er mwyn ‘rhoi’n ôl’ a rhannu’r profiadau cadarnhaol y cawsant o waith ieuenctid gyda phobl ifanc eraill.

Trwy waith ieuenctid ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae pobl ifanc yn cael eu grymuso i fod y gorau y gallant fod. Maent yn datblygu’r gallu i wneud dewisiadau cadarnhaol a magu hyder i gymryd rhan yn yr ysgol neu i chwilio am waith. Maent yn dod i ddeall eu hunain a sut i ymdopi â’r byd o’u cwmpas.

Trwy brosiect a ddarperir gan y Fenter Iaith, mae pobl ifanc yn dysgu am y Gymraeg a diwylliant Cymru, ond ar y cyfan, nid yw pobl ifanc yn datblygu’u medrau Cymraeg i’w helpu gyda gwaith yn y dyfodol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae ansawdd gwaith ieuenctid ar draws y gwasanaeth yn gyson gryf. Mae gweithwyr ieuenctid yn hynod fedrus, angerddol ac ymroddedig i osod pobl ifanc wrth wraidd eu harfer. Maent yn sefydlu perthnasoedd ymddiriedus a pharchus ac yn creu mannau diogel a chynhwysol lle mae pobl ifanc yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi.

Mae'r dull ystyriol o drawma wedi'i wreiddio'n gadarn. Mae gweithwyr ieuenctid yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r profiadau a'r heriau amrywiol y gallai pobl ifanc eu hwynebu, gan gynnwys gorbryder, perthnasoedd teuluol yn torri i lawr, a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae prosesau brysbennu fesul haenau, gan gynnwys mynediad at gymorth seicoleg glinigol a chymorth iaith a lleferydd yn Haen 3, yn sicrhau bod cymorth yn gymesur ac yn gynyddol arbenigol o ganlyniad i fedrau a dulliau gweithwyr ieuenctid. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda ac yn datblygu gwydnwch, hunanhyder ac annibyniaeth.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol ac ysgogol ar draws cwricwlwm eang. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei hwyluso trwy chwaraeon, celf a chrefftau, coginio, cerddoriaeth, gwallt a harddwch, dysgu anffurfiol a ffurfiol, a thrafodaethau grŵp. Mae lefelau ymgysylltu yn gadarnhaol ac yn cynyddu ar draws y ddarpariaeth, gyda 8,648 o ymgysylltiadau ychwanegol yn ystod 2024-2025, gan ddangos bod y gweithgareddau'n bodloni anghenion cymunedol gwirioneddol.

Mae dysgu trwy brofiad yn un o gryfderau'r cynnig. O fewn rhaglen Inspire2Work, mae pobl ifanc yn elwa o weithdai strwythuredig ar geisiadau am swyddi a hyfforddiant CV, a gyflwynir trwy ddull amlasiantaethol. Maent yn cael cymorth ymarferol i ddatblygu eu CV, chwilio am waith, hawlio budd-daliadau a mynd i addysg neu hyfforddiant. Mae gweithlyfrau myfyriol sy'n cael eu defnyddio ar draws y tîm iechyd emosiynol ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc i adnabod eu cynnydd a'i fynegi. Mae dulliau hyfforddiant teithio yn dileu rhwystrau ymarferol rhag cymryd rhan.

Mae gan weithwyr ieuenctid ddisgwyliadau uchel ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Gwnânt addasiadau hyblyg i sicrhau cynhwysiant ystyrlon, gan gynnwys cymorth un-i-un a dau-i-un, defnyddio mannau tawel, gwaith ieuenctid allgymorth, grwpiau iechyd a lles, cyflwyno'r cyngor ieuenctid ar ffurf hybrid, a darpariaeth arbenigol fel y Clwb Dawel. Mae'r dulliau hyn yn sicrhau bod pobl ifanc a allai, fel arall, gael trafferth ymgysylltu, yn cymryd rhan yn hyderus ac yn ddiogel.

Mae gwaith ieuenctid allgymorth a datgysylltiedig yn cael ei arwain gan wybodaeth ac mae'n addasol. Mae staff yn defnyddio data a rennir am agweddau fel tai, presenoldeb a gwybodaeth olrhain yr heddlu i nodi angen sy'n dod i'r amlwg ac ymateb yn gyflym.

Mae addysg ataliol wedi'i gwreiddio'n effeithiol yn y ddarpariaeth gyffredinol. Mae gwasanaethau allgymorth ieuenctid teithiol sy'n mynd i'r afael â pherthnasoedd iach, yn adlewyrchu ymateb amserol a chydlynedig at angen a nodwyd yn lleol, megis pryderon am gam-drin domestig. Mae staff yn dangos hyblygrwydd wrth ddileu rhwystrau rhag ymgysylltu, gan gyflwyno ymyriadau mewn ysgolion, cartrefi, llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol, lle bo'n briodol.

Caiff y cynnig cyffredinol ei gynllunio'n feddylgar ac mae'n ymatebol i anghenion pobl ifanc. Cyflwynir amrywiaeth eang o ddarpariaeth mynediad agored ar draws nifer o leoliadau, ochr yn ochr â rhaglenni Inspire mewn lleoliadau cymunedol, y Cyngor Ieuenctid, Allgymorth Ieuenctid a'r Ganolfan Ieuenctid Deithiol, gan sicrhau cwmpas daearyddol cynhwysfawr. Mae adborth pobl ifanc yn llywio cynllunio tymhorol ac mae hyn yn cael ei gryfhau trwy systemau cynllunio digidol a rennir a diwrnodau datblygu dynodedig. Mae strategaethau ymgysylltu yn rhagweithiol ac wedi'u targedu'n dda. Mae sioeau teithiol i Flynyddoedd 7 i 9, presenoldeb mewn nosweithiau rhieni a chymryd rhan mewn digwyddiadau Wellfest yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac yn cefnogi atgyfeiriadau priodol. Mae mynediad cynhwysol yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol, er enghraifft trwy gyfleoedd ymgysylltu ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref trwy'r Clwb Dawel a boreau coffi i rieni, gan wella'r ddealltwriaeth o'r cynnig ieuenctid a mynediad ato.

Mae'r cymorth i bobl ifanc fregus yn bwrpasol, wedi'i dargedu'n dda ac mae'n ymatebol i risg sy'n dod i'r amlwg. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn galluogi nodi pobl ifanc yn gynnar, gan gynnwys brodyr a chwiorydd a phobl ifanc o deuluoedd sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol neu yr aseswyd eu bod ar lefel risg is o fewn cyfiawnder ieuenctid. Mae staff yn ymateb yn rhagweithiol trwy atgyfeirio'r bobl ifanc hyn i wasanaethau priodol, gan helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pethau'n gwaethygu.

Cyflwynir ymyriadau strwythuredig a hynod effeithiol trwy ddarpariaeth allgymorth a datgysylltiedig, gan gynnig cymorth â ffocws i bobl ifanc ag ADY, pobl ifanc LHDTC+, y rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd, pobl ifanc sy'n profi gorbryder, pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, a'r rhai sy'n agored i gymryd risgiau neu gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae rhaglenni arbenigol, gan gynnwys YPOP a grŵp iechyd a lles pwrpasol, yn cynnig cymorth targedig ac amserol sy'n ymateb yn uniongyrchol i angen a nodwyd.

Ceir effaith fesuradwy, gyda phartneriaid yn adrodd am well ceisiadau am swyddi, dilyniant i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, cwblhau dyfarniadau ag achrediad a heb achrediad, a mwy o wydnwch a hunanddibyniaeth. Bu gostyngiad nodedig mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â Caerau Kicks a Tackle After Dark, ac ymgysylltu cymunedol cryfach trwy'r cyngor ieuenctid a digwyddiadau cymunedol.

### Ciplun: Newid y Gêm: Ymyrraeth Gynnar Trwy Ddifyrru Ieuenctid

Mae Tackle after Dark yn darparu difyrrwch ieuenctid targedig, am ddim, i bobl ifanc 10-17 oed mewn ardaloedd ag angen uchel. Nod y fenter yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynorthwyo datblygiad personol cadarnhaol trwy ymgysylltu ataliol, strwythuredig.

Mae'r rhaglenni, sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a'r Gweilch yn y Gymuned, yn cynnig sesiynau rygbi wythnosol, darpariaeth ieuenctid deithiol, a chymorth mentora. Cyflwynir gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol hygyrch, gan gynnwys maes parcio tanddaearol sy'n cael ei ddefnyddio bellach at bwrpas arall, gan alluogi ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt efallai'n manteisio ar ddarpariaeth fwy traddodiadol.

Ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdai addysgol ar berthnasoedd iach, diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth o sylweddau. Mae hyfforddiant ac arweiniad anffurfiol yn ategu'r rhain, gan anelu at gryfhau hunan-barch, gwydnwch a medrau gwneud penderfyniadau.

Mae'r mentrau'n meithrin perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion ymddiriedus, yn ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl ifanc anodd eu cyrraedd, ac yn darparu ymyrraeth gynnar ystyrlon. O ganlyniad, maent yn cyfrannu at les gwell, mwy o ymddygiad rhag-gymdeithasol, a diogelwch a chydlyniant cymunedol cryfach.

Mae gweithio amlasiantaethol yn gryf ac yn hynod effeithiol. Mae cydweithredu agos ar draws partneriaid yn sicrhau cymorth amserol a chydgysylltiedig. Mae rotâu dyletswydd ar y cyd a phaneli partneriaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y llys neu sydd mewn perygl o fod yn NEET yn enghreifftio cynllunio cydgysylltiedig. Mae pobl ifanc yn elwa o amrywiaeth helaeth a hynod effeithiol o arweiniad diduedd, wedi'i gyflwyno trwy bartneriaethau cadarn a hen sefydledig sydd â gweledigaeth gyfunol sy'n cynnig cymorth ymatebol a chynhwysfawr.

Mae gwaith ataliol ar gydraddoldeb wedi'i wreiddio'n dda ar draws partneriaethau. Mae mentrau ymwybyddiaeth troseddau casineb, prosiectau ymwybyddiaeth cyffuriau a phrosiectau gwrth-hiliaeth a gyflwynir ar y cyd â'r tîm diogelwch cymunedol, yn arddangos ymatebion cydgysylltiedig a rhagweithiol i wahaniaethu a thensiynau cymunedol. Mae prosiectau fel 'Joining the Dots' yn enghreifftio gwaith cydgysylltiedig ar gynhwysiant, gan gefnogi pobi ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol ac ehangu llwybrau darpariaeth addas.

Ar y cyfan, gall pobl ifanc ddisgwyl gwaith ieuenctid perthynol, o ansawdd uchel, sy'n cael ei gyflwyno gan ymarferwyr medrus sy'n ymateb yn hyblyg ac yn rhagweithiol i angen.

Mae'r ddarpariaeth yn eang, yn gynhwysol ac yn gynyddol effeithiol, gyda thystiolaeth glir ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles pobl ifanc, eu dysgu a'u cyfleoedd yn y dyfodol.

## Arwain a gwella

Mae rheolwr a thîm staff Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn arddangos ymrwymiad cadarn i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i bobl ifanc. Mae uwch arweinwyr, gan gynnwys y prif weithredwr, yn cefnogi'r gwasanaeth yn weithgar ac yn cydnabod ei bwysigrwydd strategol. Mae'r aelod cabinet yn darparu cymorth priodol a her adeiladol, ac mae craffu effeithiol trwy'r pwyllgor trosolwg a chraffu.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad ar waith i gefnogi'r gwasanaeth a'i ddwyn i gyfrif. Mae rheolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn darparu adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r cyfarwyddwr, gan sicrhau llinellau atebolrwydd clir. Mae'r gwasanaeth wedi'i wreiddio'n dda yng Nghynllun Strategol y Blynyddoedd Cynnar, Addysg a Phobl Ifanc, ac mae'n cyd-fynd yn agos â'r cynllun corfforaethol, gan adlewyrchu ei gyfraniad at flaenoriaethau sefydliadol ehangach.

Mae rheolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ac uwch weithwyr ieuenctid yn cynhyrchu hunanwerthusiad blynyddol cynhwysfawr. Mae'r gwasanaeth yn casglu ystod eang o wybodaeth am ei waith ac mae'n arddangos ymrwymiad clir i fyfyrio ar arfer. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanwerthuso yn tueddu i bwysleisio disgrifiadau o weithgarwch, yn hytrach na dadansoddi'n gyson effaith fesuradwy'r ddarpariaeth dros gyfnod. Mewn ychydig o feysydd, darperir tystiolaeth o ddeilliannau uniongyrchol, ond nid yw cynnydd tymor hwy ac effaith barhaus yn cael eu harchwilio'n llawn bob amser.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn defnyddio amrywiaeth eang o leoliadau addas ar draws yr awdurdod lleol yn effeithiol, ynghyd â'i fws ieuenctid teithiol, i gyflwyno darpariaeth. Mae Canolfan Ieuenctid Neuadd Evergreen ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnig gofod croesawgar, o ansawdd uchel i bobl ifanc. Mae'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan nifer o bartneriaid, sy'n aml yn gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth, i ddarparu ystod eang o gymorth targedig a chymorth mynediad agored. Mae'r bws ieuenctid teithiol yn gwella hyblygrwydd ac ymatebolrwydd, gan alluogi'r gwasanaeth i ymestyn ei gyrhaeddiad a chyflwyno darpariaeth mewn cymunedau ar draws yr awdurdod, lle nodir angen.

Mae gan Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr gynnig digidol effeithiol sy'n cynnwys gwefan ac amrywiaeth o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cynnwys yn cael ei greu gan y grŵp golygyddion ifanc ac mae'n cael llawer o sylw. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth glir am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ac mae'n ymgorffori arolygon ar-lein, ac wedyn adborth 'Dywedoch chi, Gwnaethon ni' i ddilyn. Gall pobl ifanc gael at

gymorth pellach ar-lein trwy swyddogaeth sgwrsfot y wefan. Yn ychwanegol, mae ‘Padlet’ dan arweiniad pobl ifanc wedi cael ei lansio’n ddiweddar i bobl ifanc ryngweithio ag ef.

Mae deilliannau hirdymor NEET ar gyfer Blwyddyn 11 i Flwyddyn 13 yn parhau i berfformio’n well na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, gan arddangos effaith barhaus. Mae dadansoddiad saith blynedd yn dangos bod Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio’n well na chanrannau NEET cenedlaethol dros Flwyddyn 11 i Flwyddyn 13, sy’n arwydd o nodi cynnar a chymorth cadarn. Mae strwythurau llywodraethu yn defnyddio data yn rheolaidd i fonitro deilliannau, fel olrhain NEET, data ar iechyd emosiynol a dangosyddion digartrefedd, ond mae dibyniaeth helaeth ar gyllid grant yn peri risgiau i gynaliadwyedd hirdymor.

Mae cydweithio cryf ar draws timau addysg wedi’i nodweddu gan ymgysylltu amlasiantaethol, cyd-gynhyrchu a chyflwyno gwasanaethau ar y cyd yn effeithiol. Mae timau’n cydweithio’n bwrpasol i alinio cymorth ac ymateb i anghenion pobl ifanc. Mae’r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a’r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn cynnal diwrnodau datblygu ar y cyd, gan gynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu arbenigedd, myfyrio ar arfer a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae’r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi’i integreiddio’n dda o fewn yr adran ac mae’n cael ei ystyried yn bartner strategol a gweithredol pwysig ar draws nifer o feysydd darparu gwasanaethau.

Mae’r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn gweithio’n agos gyda phartneriaid y trydydd sector ar draws yr awdurdod, ac mae cytundebau lefel gwasanaeth ar waith. Mae un bartneriaeth, sef Materion Ieuenctid Pen-y-bont (BYM), yn drefniant rhwng y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a’r trydydd sector. Mae BYM yn gweithio’n strategol i fapio darpariaeth ar draws yr awdurdod i osgoi dyblygu. Trwy fenter ar y cyd â BYM, fe wnaeth y prosiect arolygwyr ifanc, dan arweiniad pobl ifanc, gynhyrchu adroddiad arolygu cynhwysfawr ar y ddarpariaeth ieuenctid. Mae canfyddiadau’r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio i helpu i gynllunio gwelliant ar draws y bartneriaeth.

### Ciplun: Neuadd Evergreen: Partneriaeth ar Waith

Mae Hyb Ieuenctid Evergreen Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig darpariaeth mynediad agored, 5 diwrnod yr wythnos, i bobl ifanc hyd at 25 oed. Mae'r hyb yn cynnig amgylchedd croesawgar a diogel lle gall pobl ifanc fanteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth integredig mewn un lleoliad hygyrch.

Mae'r model, sydd wedi'i gydleoli, yn dwyn Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys Llamau, CAMHS, y Ganolfan Byd Gwaith, y GIG, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a Thai CBSP. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn lleihau rhwystrau rhag ymgysylltu, yn cryfhau ymyrraeth gynnar ac yn galluogi pobl ifanc i gael at gymorth ar gyfer tai, iechyd meddwl, cyflogaeth a lles mewn un lleoliad dibynadwy.

Mae integreiddio'r Ganolfan Byd Gwaith yn ddiweddar gyda chlybiau gwaith Inspire 2 Work+ wedi gwella presenoldeb ac ymgysylltiad. Dywed pobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn dod i apwyntiadau yn yr hyb, gan arwain at gynllunio cymorth mwy effeithiol a llwybrau dilyniant cliriach i waith a hyfforddiant.

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn galluogi ymyrraeth gyflym ac ymatebol. Mewn un enghraifft, fe wnaeth gweithredu cydgysylltiedig ar y safle sicrhau llety diogel o fewn awr i berson ifanc a oedd yn ddigartref ar y stryd.

Yn gyffredinol, mae'r hyb ieuenctid yn Neuadd Evergreen yn dangos sut mae cydleoli, gweithio'n gryf mewn partneriaeth a dull sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn gallu gwella ymgysylltiad, cryfhau llwybrau a chyflawni deilliannau pendant i bobl ifanc agored i niwed ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae staff yn elwa o oruchwyliaeth reolaidd ac arfarniadau arferol, ac maent yn gwerthfawrogi dull cefnogol rheolwyr, yn enwedig y pwyslais cryf ar les. Mae'r prosesau hyn yn helpu i nodi anghenion dysgu proffesiynol a monitro perfformiad yn effeithiol. Hefyd, mae staff yn cydweithredu, gan gynnig cymorth cymheiriaid a rhannu arfer dda wrth reoli gwaith achos. Fodd bynnag, mae cymhlethdod, dwyster a gofynion emosiynol cynyddol gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion lluosog ac acíwt yn aml, yn rhoi pwysau ar staff. Er bod mynediad at oruchwyliaeth fwy arbenigol yn cael ei beilota pan fydd staff yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth, nid oes dealltwriaeth gyson eto ymhlith y staff o sut gallent fanteisio ar oruchwyliaeth fwy strwythuredig ac arbenigol i gefnogi eu gwydnwch proffesiynol, eu harfer fyfyriol a'u cefnogi i wneud penderfyniadau diogel.

Mae staff ar bob lefel yn gallu cael at ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol, y mae llawer ohonynt hefyd yn cael eu hestyn i gydweithwyr yn y trydydd sector, gan gryfhau arfer ar draws y rhwydwaith gwaith ieuenctid ehangach. Mae arweinwyr yn ymatebol i

anghenion hyfforddi sy’n dod i’r amlwg; er enghraifft, mae hyfforddiant ar brofedigaeth wedi cael ei ddarparu i wella hyder a chymhwysedd staff wrth gefnogi pobl ifanc sy’n profi colled. Caiff staff eu hannog i ymgymryd â chymwysterau perthnasol a chynigir cyfleoedd am secondiad iddynt ddatblygu medrau arwain. Mae’r dulliau hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygu’r gweithlu ac yn cynorthwyo cynllunio olyniaeth effeithiol o fewn Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol ar draws y gwasanaeth, gan sicrhau bod gweithdrefnau adrodd a chofnodi priodol yn cael eu dilyn yn gyson. Mae staff wedi’u hyfforddi’n addas ac mae dogfennaeth diogelu yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Mae’r gwasanaeth yn gweithio’n effeithiol gyda rheolwr y tîm ymgysylltu addysg i fynd i’r afael â phryderon diogelu a phroffesiynol. Mae rheolwr y tîm ymgysylltu addysg yn darparu diweddariadau wythnosol ar ddiogelu i reolwyr ar draws yr adran, gan gryfhau goruchwyliaeth a chyfathrebu. Mae gan yr holl staff DBS ar lefel briodol yn unol â’r polisi corfforaethol ac maent yn cwblhau hyfforddiant Prevent (Atal) gorfodol. Mae’r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn chwarae rhan allweddol mewn darparu cymorth cofleidiol i bobl ifanc sy’n cael eu hatgyfeirio trwy Atal, gan gyfrannu at drefniadau diogelu amlasiantaethol a helpu i leihau risg.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o bobl ifanc…’* neu *‘ychydig iawn o bobl ifanc…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/05/2026